# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Mai 2017

Amser: 08.30 - 08.40

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Rhuanedd Richards, Policy Adviser to the Llywydd |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i atal Rheolau Sefydlog, i'w gynnwys ar ôl y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, i symud y Ddadl Fer o ddydd Mercher i'r eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y câi’r Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

**Dydd Mercher**

- Trafododd y Rheolwyr Busnes sut i osgoi cael cyfarfodydd sy'n rhy hir ar ddydd Mercher yn y dyfodol drwy drefnu un awr yn llai o amser i'r gwrthbleidiau pan fo eitemau fel Datganiadau Pwyllgor neu gynigion deddfwriaethol gan Aelodau wedi’u trefnu, er mwyn ystyried Cwestiynau Amserol a fydd bellach yn eitem reolaidd bob dydd Mercher.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y câi’r Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan Vikki Howells i gyfnewid ei slot ar gyfer dadl fer ar 7 Mehefin â slot Mike Hedges ar 21 Mehefin; diwygiwyd y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn unol â hynny.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 14 Mehefin 2017 –**

- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod – y Bil Awtistiaeth (Cymru) (Paul Davies) (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes ddau gynnig i'w trafod – un ar 24 Mai, a'r llall ar 14 Mehefin.

**Dydd Mercher 24 Mai:**

**NNDM6311**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Hefin David (Caerffili)**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**
**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn llongyfarch staff GIG Cymru am drin a gwella'r nifer uchaf erioed o gleifion â Hepatitis C.
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei hymrwymiad i ddyddiad dileu Hepatitis C Sefydliad Iechyd y Byd o 2030.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried canllawiau gweithredu newydd er mwyn cefnogi'r GIG i weithio tuag at ddileu Hepatitis C yng Nghymru.

**Dydd Mercher 14 Mehefin:**

**NNDM6283**
**Huw Irranca-Davies (Ogwr)**
**Jeremy Miles (Castell-nedd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r £217 miliwn o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf ac ymrwymiad pellach o £104 miliwn dros y pedair blynedd nesaf i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.
2. Yn nodi ymhellach bod angen i effeithlonrwydd ynni yn y cartref gael ei wella'n sylweddol os yw Cymru am gyrraedd ei nod o ran datgarboneiddio a lleihau tlodi tanwydd.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried amrywiaeth ehangach o ddulliau buddsoddi ar gyfer effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys cyllid arloesol, gwneud defnydd da o bensiynau'r sector cyhoeddus, a defnyddio cyllid y sector preifat.
4. Yn nodi'r cynnig i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion seilwaith ynni hirdymor Cymru a chyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn cael eu cynnwys o fewn ei gylch gwaith.
5. Yn credu y byddai buddsoddiad o'r fath yn rhoi hwb enfawr i ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn rhai o'n cartrefi hynaf, gan ddarparu cartrefi cynnes a chlyd, gwella iechyd a llesiant pawb ac yn arbennig y mwyaf agored i niwed.
6. Yn credu ymhellach y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, lleihau'r allyriadau carbon drwy effeithlonrwydd ynni, lleihau'r defnydd o ynni a lleihau nifer y gorsafoedd pŵer newydd sydd angen inni eu hadeiladu.
7. Yn cydnabod y potensial ar gyfer twf economaidd, gan greu miloedd o swyddi ym mhob cymuned ym mhob rhan o Gymru.